PWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 7 CHWEFROR 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Jackie Parry(Caedeirydd) |
| | Cynghorwyr Murphy, Boyle, Goddard, Kelloway a/ac Simmons |

30 Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Manzoor Ahmed.

31 Datgan Buddiannau

Ni chafwyd unrhyw rai.

Cafodd y pwyllgor ddau funud o ddistawrwydd ar gyfer y Cynghorydd Derrick Morgan.

32 Cofnodion

Cafodd cofnodion Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd ac Is-bwyllgor Diogelu'r Cyhoedd a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2017 eu cytuno fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

33 Ffioedd Trwyddedu: Dyfarniad y Llys Cyfiawnder Ewropeaidd – Hemming yn erbyn Westminster

Diben yr adroddiad oedd rhoi gwybod i Aelodau am ddyfarniad y Llys Cyfiawnder Ewropeaidd diweddar yn yr Achos Hemming yn erbyn Westminster Mae gan y dyfarniad oblygiadau o ran y ffordd y gall awdurdodau lleol godi am y gost o weinyddu a gorfodi rhai trefniadau trwyddedu.

Mae'r Cyfarwyddyd Gwasanaethau Ewropeaidd yn ceisio ei wneud yn haws i ddarparwyr gwasanaeth weithredu ledled Ewrop. Un o'i brif ddarpariaethau yw y gall ffioedd trwyddedu ond gael eu defnyddio i dalu am y costau sy'n gysylltiedig â gweinyddu trefniadau trwyddedu dan y Cyfarwyddyd. Felly, ni all Awdurdodau Lleol wneud elw o drwyddedu neu atal darparwyr gwasanaeth drwy godi ffioedd afresymol. Cyflawnwyd y Cyfarwyddyd yn y DU gan Reoliadau Darparu Gwasanaethau 2009, ac mae Rheoliad 18(4) yn nodi bod rhaid i gostau dan gynllun awdurdodi fod yn rhesymol ac yn gymesur â, ond nid yn fwy na, chost y gweithdrefnau dan y cynllun. **Nid** yw'r Cyfarwyddyd Gwasanaethau yn berthnasol i ffioedd tacsi (gyrwyr, gweithredwyr a cherbydau), neu ffioedd a chostau dan Ddeddf Gamblo 2005 a Deddf Trwyddedu 2003.

Yn 2012, dechreuodd perchennog y siop ryw Timothy Hemming achosion cyfreithiol yn erbyn Cyngor Dinas Westminster gan honni nad oedd y ffioedd trwyddedu a godwyd gan Gyngor Dinas Westminster yn rhesymol. Roedd ffioedd siop ryw Westminster yn fwy na £26,000; roedd y ffioedd yn cynnwys costau ar gyfer rheoli trefniadau a gweithgareddau gorfodi yn erbyn gweithredwyr didrwydded; y rhan olaf hon o'r ffi yn ôl Hemming oedd yn afresymol a digymesur dan y ddeddfwriaeth. Mae'r achos wedi parhau drwy'r Llysoedd uchaf ac mae darganfyddiadau pob Llys wedi'u crynhoi isod.

Dyfarnodd y Llys Gweinyddol (ac yna'r Llys Apêl) na ddylai ffioedd trwyddedu fod yn fwy na'r gost o weinyddu'r broses drwyddedu ac ni all hyn gynnwys y costau o orfodi yn erbyn gweithredwyr didrwydded. Fodd bynnag, roedd y dyfarniad yn ei gwneud hi'n glir y gallai

costau cydymffurfio a gorfodi yn erbyn gweithredwyr trwyddedig gael eu cynnwys yn y ffi trwyddedu.

Apeliodd Cyngor Westminster yn erbyn penderfyniad y Llys Apêl ac, yn Ebrill 2015, newidiodd y Llys Goruchaf benderfyniad y Llys Apêl gan ei wneud yn glir y gallai awdurdodau lleol osod eu ffioedd ar lefel a fyddai'n eu galluogi i adennill y costau llawn o reoli a gorfodi'r drefn drwyddedu, gan gynnwys y costau yr eir iddynt mewn achosion yn erbyn gweithredwyr didrwydded.

Rhoddodd y Llys Goruchaf ystyriaeth hefyd i sut y dylai ffioedd o'r fath gael eu strwythuro. Nododd ddau wahanol ddull o ran codi ffioedd trwyddedu:

- Math A - Codir ffi ymgeisio i gynnwys y gweithdrefnau awdurdodi sy'n rhan o brosesu'r cais, yna codir ffi ychwanegol ar ymgeiswyr llwyddiannus sy'n cynnwys y costau rhedeg a'r gost o orfodi'r drefn drwyddedu.
- Math B – Codir un ffi ar yr ymgeisydd sy'n cynnwys holl gostau'r broses ymgeisio, a chostau rhedeg/gorfodi'r drefn drwyddedu.
  Os bydd yr ymgeisydd yn aflwyddiannus caiff y rhan o'r ffi sy'n cynnwys y costau rhedeg / gorfodi ei had-dalu i'r ymgeisydd.

Roedd gan y Llys Goruchaf bryderon am p'un a fyddai strwythur y ffi a nodir ym Math B yn cyd-fynd â Chyfarwyddyd Gwasanaethau'r UE a theimlwyd bod angen cyfeirio at y Llys Cyfiawnder Ewropeaidd am esboniad.

Dyfarnodd y LlCE nad oedd dull Math B o osod ffioedd (a amlinellir yn 2.5 uchod) yn cyd-fynd â Chyfarwyddyd Gwasanaethau'r UE, gan ddadlau bod y Cyfarwyddyd

*Yn atal y gofyniad i dalu ffi, ar adeg cyflwyno cais i gael neu adnewyddu awdurdodiad, y mae rhan ohono'n ymwneud â'r costau mewn perthynas â rheoli a gorfodi'r cynllun awdurdodi dan sylw, hyd yn oed os gellir ad-dalu'r rhan honno os caiff y cais hwnnw ei wrthod.'*

Fel gyda nifer o awdurdodau lleol eraill, y sefyllfa bresennol yng Nghaerdydd yw y caiff ffioedd eu codi trwy ddull Math B gyda'r holl gostau yn cael eu cynnwys yn y cais cychwynnol. Mae'n arbennig o brin i geisiadau dan y trefniadau trwyddedu hyn gael gwrthod trwydded, fodd bynnag rhoddir ad-daliad yn yr amgylchiadau hynny.

Mae dyfarniad y LlCE yn cyflwyno nifer o faterion i Awdurdodau Lleol o ran cyflawni dyletswyddau dan rai trefniadau trwyddedu. Mae angen i Awdurdodau Trwyddedu nawr ystyried sut i strwythuro eu ffioedd dan ddull Math A fel y nodir yn 2.5 uchod. Mae'r dyfarniad yn awgrymu y dylid cael 2 ffi wahanol; un i gynnwys y costau awdurdodi e.e. y gost yn gysylltiedig â derbyn ac ystyried cais, a ffi ychwanegol a delir gan ymgeiswyr llwyddiannus yn unig i gynnwys y costau o redeg a gorfodi'r drefn drwyddedu.

Mae'n werth nodi mai barn y Llys Goruchaf – sy'n parhau - oedd nad oes unrhyw beth yn atal awdurdodau trwyddedu rhag gwneud talu ffi felly yn amod o gael trwydded. Mae'n golygu y gall awdurdodau ddal trwydded yn ôl tan eu bod wedi derbyn y ffi berthnasol:

O ystyried dyfarniad y LlCE, bydd y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir, drwy ymgynghori â gwasanaethau cyfreithiol, yn dechrau adolygiad o'r broses o gyflwyno trwyddedau a'r ffioedd cysylltiedig i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cyfarwyddyd Gwasanaethau. Mae awdurdodau lleol yn disgwyl am ganllaw pellach gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol a'r

Llywodraeth ar y mater hwn. Rhagwelir y bydd unrhyw newidiadau i strwythurau ffioedd ar waith erbyn Mehefin 2017.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r adroddiad gael ei nodi a'r Pwyllgor dderbyn adroddiad pellach ar y mater hwn i sicrhau bod prosesau trwyddedu'r Cyngor yn adlewyrchu'r rheiny a eiriolir gan y Llys Dyfarnu Ewropeaidd.

34 Rheoli Masnachu ar y Stryd – Strydoedd Caniatâd

Hysbyswyd aelodau fod Masnachu ar y Stryd yn cael ei reoli gan Atodlen 4 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982.

Mae'r Ddeddf yn nodi y gall awdurdod lleol drwy benderfyniad ddynodi unrhyw stryd yn eu hardal fel:

i) "stryd a waherddir" lle mae masnachu ar y stryd wedi'i wahardd;
ii) "stryd â chaniatâd" lle mae masnachu ar y stryd wedi'i wahardd heb ganiatâd yr awdurdod lleol; a
iii) "stryd â thrwydded" lle mae masnachu ar y stryd wedi'i wahardd heb drwydded a roddir gan yr awdurdod lleol.

Mae strydoedd canlynol Caerdydd wedi'u dynodi fel 'wedi'u gwahardd' o ran masnachu ar y stryd:

- Ffordd Churchill
- Rhodfa Lloyd George, Canol y Ddinas (ac eithrio'r rhan rhwng Heol Hemming Way a Roald Dahl Plas sydd eisoes â statws caniatâd)
- Rhodfa'r Orsaf, Canol y Ddinas
- Windsor Place, Canol y Ddinas
- Stryd Herbert
- Stryd Tyndall
- Stryd Bute
- Ffordd y Brenin

Nid yw'r strydoedd canlynol wedi eu dynodi o ran masnachu ar y stryd:

- Sgwâr Callaghan
- Rhodfa Bute
- Cilgant Bute

Cynigir bod y strydoedd sydd wedi'u gwahardd a heb eu dynodi a restrir yn 1.3 uchod yn cael eu newid i strydoedd "â chaniatâd" i ganiatáu masnachu yn ystod digwyddiadau / gweithgareddau a drefnir gan neu mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Caerdydd. Fodd bynnag dim ond rhan o Stryd Bute y dylid ei dynodi yn stryd â chaniatâd rhwng y gyffordd â Sgwâr Callaghan i'r gyffordd â Rhodfa Bute / Heol y Tollty, byddai gweddill y stryd yn parhau'n stryd wedi'i gwahardd.

**<u>Caniatâd Masnachu yng Nghanol y Ddinas</u>**

Mae strydoedd caniatâd yn caniatáu masnachu ar sail hyblyg. Gellir masnachu ar stryd â chaniatad pan fo'r awdurdod wedi rhoi "caniatâd" i fasnachwr ar ddyddiad penodol am gyfnod byr o amser; tua 8 awr fel arfer. Mae esiamplau o ganiatâd masnachu ar y stryd yn cynnwys caniatáu masnachu ar gyfer gemau cartref twrnamaint rygbi'r chwe gwlad.

Mae Tîm Digwyddiadau Cyngor Caerdydd wedi nodi y gall y strydoedd a restrir ym mharagraff 1.3 gael eu defnyddio fel safleoedd digwyddiadau yn y dyfodol, a byddai newid y dynodiadau i strydoedd â chaniatâd yn rhoi'r hyblygrwydd i ganiatáu masnachu yn yr ardaloedd hynny. Mae creu strydoedd â chaniatad yn parhau i gynnal cyfyngiadau dros fasnachu ar y stryd heb awdurdod gan ei fod yn drosedd i fasnachu mewn stryd "â chaniatad" heb ganiatâd masnachu ar y stryd a roddir gan y Cyngor.

Argymhellir felly bod dynodiadau'r strydoedd hynny a restrir ym mharagraff 1.3 uchod yn cael eu newid i strydoedd "â chaniatâd", fel y gellir rhoi caniatâd masnachu ar y stryd fel rhan o ddigwyddiadau / gweithgareddau a drefnir gan neu mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Caerdydd.

Er mwyn osgoi achosi rhwystrau, niwsans neu ymyrraeth â phobl eraill sy'n byw, gweithio neu ddefnyddio'r stryd, bydd unrhyw fasnachu ar y strydoedd hyn ar sail dros dro yn ystod digwyddiadau a drefnir. Fel gyda'r sefyllfa bresennol â Heol Eglwys Fair, Heol Fawr a digwyddiadau Canol y Ddinas rhagwelir y bydd yr Adran Drwyddedu ond yn derbyn ceisiadau gan fasnachwyr sydd wedi derbyn caniatâd i fasnachu yn y digwyddiadau gan Dîm Digwyddiadau neu adran Rheoli Canol y Ddinas y Cyngor.

PENDERFYNWYD:

i. Bod y Pwyllgor wedi awgrymu ei fwriad i ddynodi'r strydoedd canlynol fel Strydoedd Caniatâd at y diben o fasnachu ar y stryd:
   - Ffordd Churchill
   - Rhodfa Lloyd George, ar ei hyd
   - Rhodfa'r Orsaf, Canol y Ddinas
   - Windsor Place, Canol y Ddinas
   - Stryd Herbert
   - Stryd Tyndall
   - Rhan o Stryd Bute rhwng y gyffordd â Sgwâr Callaghan i'r gyffordd â Rhodfa Bute / Heol y Tollty
   - Rhodfa Bute
   - Cilgant Bute
   - Ffordd y Brenin
   - Sgwâr Callaghan

ii. Bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, Swyddog Llywodraethu a Monitro, yn cael ei awdurdodi i gyhoeddi hysbysiad cyfreithiol o fwriad y Pwyllgor ac yn adrodd i'r Pwyllgor cyn bo hir fel y gall ystyried pasio'r penderfyniad angenrheidiol.

35 Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd ar 7 Mawrth 2017.

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified